



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Canolfan Mileniwm Cymru

Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau – 2020

Pwy yw Canolfan Mileniwm Cymru?

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn gartref i'r celfyddydau creadigol yng Nghymru, ac yn grochan o greadigrwydd i'r genedl. Rydym wedi ein lleoli yng nghanol Bae Caerdydd, ac wedi croesawu dros 20 miliwn o bobl trwy ein drysau ers agor yn 2004. Rydym yn parhau i fod yn un o atyniadau ymwelwyr mwyaf poblogaidd Cymru ac yn ymdrechu i danio'r dychymyg trwy guradu cynyrchiadau teithiol arobryn o'r radd flaenaf, o sioeau cerdd a chomedi i ddawns, cabaret a gŵyl ryngwladol. Rydyn ni'n meithrin doniau newydd gyda'n gweithiau ffres, pryfoclyd a phoblogaidd, wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn niwylliant Cymru. Ac rydyn ni'n ennyn angerdd pobl ifanc dros y celfyddydau, gan roi iddynt gyfleoedd dysgu sy'n newid eu bywydau ac yn rhoi cyfle iddynt ddisgleirio.

Gweledigaeth ac Amcanion

Gweledigaeth y Ganolfan yw *Ysbrydoli ein Cenedl, Creu Argraff ar y Byd* trwy greu profiadau ysbrydoledig sy'n newid bywydau ac yn ehangu gorwelion.

Yn y blynyddoedd i ddod, bydd y Ganolfan yn ceisio:

- Creu gwaith arloesol sy'n arddangos Cymru i'r byd
- Codi dyhead pob person ifanc yng Nghymru
- Bod yn hygyrch i bawb
- Cael ei ddathlu fel un o'r prif ganolfannau celfyddydau perfformio yn y byd.

Pobl yw calon ein sefydliad, ac ni allem gyflawni ein huchelgeisiau hebddynt. Credwn y dylai pob gweithiwr gael cyfle i ffynnu, cyflawni ei botensial a chyfrannu at lwyddiant y busnes.


Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng Nghanolfan Mileniwm Cymru

Mae ein hymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ganolog i'n gweledigaeth a'n hamcanion. Mae'r Ganolfan yn credu'n gryf mewn gweithredu fel sefydliad cynhwysol ac amrywiol lle mae ein holl staff a'n cwsmeriaid yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a lle mae ein hamgylchedd gwaith a'r gwasanaethau a ddarparwn yn adlewyrchu amrywiaeth y bobl a'r cymunedau yr ydym yn ymgysylltu â hwy. Er mwyn cyflawni llwyddiant, rydym yn adnabod bod yn rhaid inni fod yn rhagweithiol wrth ddileu'r rhwystrau y gall rhai pobl eu hwynebu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau, gan gynnwys chwilio am waith.

Rydym felly yn sicrhau'n barhaus bod ein hymarferiadau nid yn unig yn cydweddu â'n hegwyddorion ond yn rhagweithiol, ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Ein Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Mae'r siart bar isod yn dangos ein bylchau cyflog cymedr a chanolrif cyffredinol ar sail rhyw yn seiliedig ar ddata ar 5 Ebrill 2019.



Rhestr Termau:

Cyflog Cymedr: Cyflog cyfartalog yr holl weithwyr (yn seiliedig ar gyfradd yr awr)

Cyflog Canolrif: Y pwynt canol rhwng cyflog uchaf a'r cyflog isaf, gan ddarparu golwg ar gyflog nodweddiadol yr enillwr canol (yn seiliedig ar gyfradd yr awr)

Ein Chwarteli Cyflog yn ôl Rhyw

Mae'r tabl isod yn dangos y dosbarthiad yn ôl rhyw ar draws y Ganolfan mewn pedwar chwartel o'r un maint yn ôl bandiau cyflog.

<u>CHWARTEL ISAF</u>		<u>CHWARTEL CANOL ISAF</u>		<u>CHWARTEL CANOL UCHAF</u>		<u>CHWARTEL UCHAF</u>	
<u>Cyfanswm yn y Chwartel =</u>	58	<u>Cyfanswm yn y Chwartel =</u>	59	<u>Cyfanswm yn y Chwartel =</u>	60	<u>Cyfanswm yn y Chwartel =</u>	59
<u>% Gwrywod Chwartel Isaf</u>	34%	<u>% Gwrywod Chwartel Canol Isaf</u>	44%	<u>% Gwrywod Chwartel Canol Uchaf</u>	35%	<u>% Gwrywod Chwartel Uchaf</u>	49%
<u>% Benywod Chwartel Isaf</u>	66%	<u>% Benywod Chwartel Canol Isaf</u>	56%	<u>% Benywod Chwartel Canol Uchaf</u>	65%	<u>% Benywod Chwartel Uchaf</u>	51%

Taliadau Bonws

Fel rhan o'r rhwymedigaethau adrodd statudol, mae'n ofynnol i gyflogwyr gyhoeddi'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau a geir yn eu taliadau bonws. Yn ystod 2019, gwnaed un taliad cytundebol yn gysylltiedig â pherfformiad i un gwryw

Esboniad o'n Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein gweithwyr ac rydym wedi ymrwmo i greu amgylchedd gwaith sy'n gynhwysol i bawb. Rydym yn hyderus bod dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal am wneud swyddi cyfatebol ar draws y Ganolfan. Mae ein staff ar lefel cychwynnol yn derbyn Cyflog Byw Go lawn, waeth beth fo'u rhyw a'u hoedran.

Mae ein dadansoddiad o'n Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, sef 13.40% (yn seiliedig ar giplun ar 5 Ebrill 2019) yn seiliedig i raddau helaeth ar y canlynol:

- Mae mwy o fenywod yn gyflogedig gan y Ganolfan nag sydd o ddynion. Mae 59% o'n gweithlu yn fenywod. Adlewyrchir hyn yn fras mewn tri o'r pedwar chwartel.
- Mae'r chwartel uchaf wedi ei rhannu'n gyfartal rhwng dynion a menywod.
- Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn 50:50 benyw/gwryw. Wnaeth y bwrdd gymeradwyo tal bonws i bawb yn y Tîm Arweinyddiaeth Strategol (fel rhan o dal cytundebol unigolyn yn seiliedig ar berfformiad) yn seiliedig ar eu llwyddiannau dros y cyfnod o dan sylw. Dalwyd un taliad bonws o fewn y cyfnod o dan sylw, a dalwyd gweddill y taliadau bonws yn fuan wedyn.

Mae rhai o'r pethau yr ydym eisoes wedi cyflawni eleni, a fydd yn cyfrannu at leihau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ar gyfer 2021 a thu hwnt, yn cynnwys datblygu fframwaith tâl cyson a theg ac adolygu ein harferion recriwtio i sicrhau prosesau recriwtio teg a chyson, a bod ein rheolwyr yn cael eu hyfforddi i wneud hyn.

Ein Hymrwymiad

Byddwn yn parhau i adolygu a sicrhau bod ein polisiau a'n harferion yn deg yn rheolaidd, gan gynnwys adolygu penderfyniadau ynghylch cyflog.

Dros y 12 mis nesaf rydym hefyd yn ymrwmo i:

- **Barhau i adolygu a gweithredu mentrau sy'n cefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Byddwn yn parhau i weithredu ein Strategaeth Pobl 5 mlynedd a'n Cynlluniau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer 2020 i gynyddu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y Ganolfan ymhellach.

- **Weithredu ein prosesau recriwtio mewn modd cyson**

Yr ydym, yn ddiweddar, wedi cwblhau adolygiad o'n harferion recriwtio a byddwn yn sicrhau trwy gyfathrebiad a hyfforddiant bod hwn yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn wrthrychol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein swyddi gwag newydd yn cael ei hysbysebu ar draws ystod eang o lwyfannau.

- **Ddatblygu ein cronfa dalent mewn modd gweithredol**

Byddwn yn datblygu model ar gyfer cynllunio olyniaeth a rheoli talent i sicrhau bod hyrwyddiadau'n seiliedig ar botensial a pherfformiad.

- **Annog gweithio'n hyblyg mewn modd gweithredol**

Mae ein harolygon staff yn pwysleisio bod ein staff yn gwerthfawrogi lefel yr hyblygrwydd a ganiateir. Byddwn felly yn parhau i annog ffyrdd hyblyg ac ystwyth o weithio i sicrhau bod anghenion cydbwysedd bywyd a gwaith ein gweithwyr yn cael eu diwallu.

Rydym yn cadarnhau bod y data a adroddwyd yn gywir.



Mathew Milsom

Rheolwr Gyfarwyddwr

Ni yw Canolfan Mileniwm Cymru. Tanwydd i'r dychymyg.